

2018 Rhif (Cy.)

2018 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A55
(Cyffordd 4 (Dalar Hir) i Gyffordd
8 (Ael-y-Bowl), Ynys Môn)
(Gwahardd Cerbydau Dros Dro)
2018

The A55 Trunk Road (Junction 4
(Dalar Hir) to Junction 8 (Ael-y-
Bowl), Isle of Anglesey)
(Temporary Prohibition of
Vehicles) Order 2018

Gwnaed 31 Mai 2018

Made 31 May 2018

Yn dod i rym 4 Mehefin 2018

Coming into force 4 June 2018

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd yr A55 Llundain i Gaergybi, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A55 London to Holyhead Trunk Road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 14(1), (4), (7) a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by sections 14(1), (4), (7) and 124 of, and paragraph 27 of Schedule 9 to, the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi, cychwyn a dehongli

Title, Commencement and Interpretation

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 4 (Dalar Hir) i Gyffordd 8 (Ael-y-Bowl), Ynys Môn) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2018 a daw i rym ar 4 Mehefin 2018.

1. The title of this Order is the A55 Trunk Road (Junction 4 (Dalar Hir) to Junction 8 (Ael-y-Bowl), Isle of Anglesey) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2018 and it comes into force on 4 June 2018.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

2.—(1) In this Order:

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 10:00 o'r gloch ar 4 Mehefin 2018 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A55 London to Holyhead Trunk Road;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A55 Llundain i Gaergybi.

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 10:00 hours on 4 June 2018 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are removed.

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, gael ei yrru ar naill ai cerbyttfordd tua'r dwyrain neu gerbyttfordd tua'r gorllewin y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

4.—(1) Tra bo traffig yn cael ei wahardd rhag symud ar y gerbyttfordd tua'r dwyrain gan erthygl 3 ond, yn unol ag erthygl 9, nad yw'n cael ei wahardd rhag symud ar y gerbyttfordd tua'r gorllewin, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn lôn allanol cerbyttfordd tua'r gorllewin y gefnffordd i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r dwyrain.

(2) Tra bo traffig yn cael ei wahardd rhag symud ar y gerbyttfordd tua'r gorllewin gan erthygl 3 ond, yn unol ag erthygl 9, nad yw'n cael ei wahardd rhag symud ar y gerbyttfordd tua'r dwyrain, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn lôn allanol cerbyttfordd tua'r dwyrain y gefnffordd i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r gorllewin.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd sy'n 3 metr o led neu'n fwy fynd ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

6. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd gael ei yrru ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 2 a 3.

Atal Dros Dro

7. Mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cilfannau rhwng Cyffordd 2 (Bae Trearddur) a Chyffordd 8 (Llanfair Pwllgwyngyll), Ynys Môn) (Cyfyngu ar Aros) 2016(2), fel y maent yn gymwys i gilfannau'r gefnffordd rhwng Cyffordd 4 (Dalar Hir) a Chyffordd 8 (Ael-y-Bowl), wedi eu hatal dros dro yn ystod cyfnod y gwaith.

Dirymu

8. Mae Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Ffyrdd Ymuno ac Ymadael wrth Gyffordd 6 (Tyrpeg Nant), Ynys Môn) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2018(3) wedi ei dirymu.

(2) Any reference in this Order to a numbered article or Schedule is a reference to the article or Schedule bearing that number in this Order.

Prohibitions

3. No person may, during the works period, drive or cause or permit any vehicle to be driven on either the eastbound or westbound carriageway of the length of the trunk road specified in Schedule 1.

4.—(1) Whilst movement of traffic is by article 3 prohibited in the eastbound carriageway but, pursuant to article 9, not prohibited in the westbound carriageway, no person shall drive, cause or permit any vehicle to proceed in the offside lane of the westbound carriageway of the trunk road in any direction other than eastwards.

(2) Whilst movement of traffic is by article 3 prohibited in the westbound carriageway but, pursuant to article 9, not prohibited in the eastbound carriageway, no person shall drive, cause or permit any vehicle to proceed in the offside lane of the eastbound carriageway of the trunk road in any direction other than westwards.

5. No person may, during the works period, cause or permit any vehicle with a width of or exceeding 3 metres to proceed on the length of the trunk road specified in Schedule 1.

6. No person may, during the works period, drive or cause or permit any vehicle to be driven on the lengths of the trunk road specified in Schedules 2 and 3.

Suspensions

7. The provisions of the A55 Trunk Road (Lay-bys between Junction 2 (Trearddur Bay) & Junction 8 (Llanfair PG), Isle of Anglesey) (Restriction of Waiting) Order 2016(2), as they apply to the trunk road lay-bys between Junction 4 (Dalar Hir) and Junction 8 (Ael-y-Bowl), are suspended during the works period.

Revocation

8. The A55 Trunk Road (Slip Roads at Junction 6 (Nant Turnpike), Isle of Anglesey) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2018(3) is revoked.

(2) O.S. 2016/256 (Cy. 90)
(3) O.S. 2018/583 (Cy. 108)

(2) S.I. 2016/256 (W. 90)
(3) S.I. 2018/583 (W. 108)

Cymhwyso

9. Ni fydd y gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

10. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

31 Mai 2018

Richard Morgan

Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

Application

9. The prohibitions in articles 3, 4, 5 and 6 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

10. The maximum duration of this Order is 12 months.

Signed under authority of the Cabinet Secretary for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated the

31 May 2018

Richard Morgan

Head of Planning, Asset Management and Standards
Welsh Government

YR ATODLENNI

Y darnau o'r gefnffordd rhwng Cyffordd 4 a Chyffordd 8 ar Ynys Môn

ATODLEN 1

Gwrthlif a Gwahardd Cerbydau Llydan Dros Dro

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 3.07 cilometr i'r gorllewin o ganolbwynt Cyffordd 6 (Tyrpeg Nant) hyd at bwynt 876 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt y gyffordd honno.

ATODLEN 2

Gwahardd Cerbydau Dros Dro

Y darnau cyfan o ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r dwyrain a thua'r gorllewin Cyffordd 6 (Tyrpeg Nant).

ATODLEN 3

Cau Cilfannau Dros Dro

Y darnau cyfan o gilfannau'r gefnffordd rhwng Cyffordd 4 (Dalar Hir) a Chyffordd 8 (Ael-y-Bowl).

SCHEDULES

Lengths of the trunk road between Junction 4 and Junction 8 on the Isle of Anglesey

SCHEDULE 1

Contraflow & Temporary Prohibition of Wide Vehicles

The length of the trunk road that extends from a point 3.07 kilometres west of the centre-point of Junction 6 (Nant Turnpike) to a point 876 metres east of the centre-point of that junction.

SCHEDULE 2

Temporary Prohibition of Vehicles

The entire lengths of the eastbound and westbound exit and entry slip roads at Junction 6 (Nant Turnpike).

SCHEDULE 3

Temporary Lay-by Closures

The entire lengths of the trunk road lay-bys between Junction 4 (Dalar Hir) and Junction 8 (Ael-y-Bowl).

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A55
(CYFFORDD 4 (DALAR HIR) I GYFFORDD 8
(AEL-Y-BOWL), YNYS MÔN) (GWAHARDD
CERBYDAU DROS DRO) 2018**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A55, neu gerllaw iddi, wrth Gyffordd 6 (Tyrpeg Nant), Ynys Môn.

Effaith y Gorchymyn yw gwneud y canlynol dros dro:

i. cau naill ai cerbyttffordd tua'r dwyrain neu gerbyttffordd tua'r gorllewin y darn o'r A55 a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn. Bydd gwrthlif yn weithredol yn y lôn allanol o ba un bynnag o'r cerbyttffyrdd sy'n aros ar agor i draffig;

ii. gwahardd pob cerbyd dros 3 metr o led rhag mynd ar y darn o'r A55 a ddisgrifir yn Atodlen 1 rhwng 15:30 a 09:30 o'r gloch. Rhwng 09:30 a 15:30 o'r gloch caiff unrhyw gerbydau llydan eu hebrwng drwy'r safle gwaith gan y Cwmni Rheoli Llwythi Annormal. Yn ystod yr oriau gwaharddedig, bydd arwyddion yn cynghori cerbydau o'r fath i barcio mewn cilfan ddynodedig.

iii. gwahardd pob cerbyd rhag mynd ar y darnau o'r A55 a ddisgrifir yn Atodlen 2. Disgrifir y llwybrau eraill yn yr Atodlen honno hefyd. Ni fydd y ffyrdd ymuno ac ymadael tua'r dwyrain a thua'r gorllewin ar gau ar yr un pryd.

iv. gwahardd pob cerbyd rhag mynd ar y darnau o gilfannau'r A55 a bennir yn Atodlen 3.

Disgwylir y bydd y gwaharddiadau, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, yn dod i rym am 10:00 o'r gloch ar 4 Mehefin 2018 ac yn weithredol yn ysbeidiol hyd 22:00 o'r gloch ar 24 Tachwedd 2018, neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol. Bydd gwaith yn cael ei atal dros dro yn ystod cyfnod embargo'r haf (19 Gorffennaf – 3 Medi 2018).

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 12 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru (Detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau Statudol Lleol/ Gorchymynion Traffig Dros Dro/ 2018).

**THE A55 TRUNK ROAD (JUNCTION 4 (DALAR
HIR) TO JUNCTION 8 (AEL-Y-BOWL), ISLE
OF ANGLESEY (TEMPORARY PROHIBITION
OF VEHICLES) ORDER 2018**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A55 trunk road in the vicinity of Junction 6 (Nant Turnpike), Anglesey.

The effect of the Order is to temporarily:

i. close either the eastbound or westbound carriageway of the length of the A55 described in Schedule 1 to this Notice. Contra-flow will operate in the offside lane of whichever carriageway remains open to traffic;

ii. prohibit all vehicles over 3 metres wide from proceeding on the length of the A55 described in Schedule 1 between 15:30 – 09:30 hours. From 09:30 to 15:30 hours any wide vehicles will be escorted through the works site by the Abnormal Load Management Company. During the prohibited hours, signs will advise such vehicles to park up at a designated lay-by.

iii. prohibit all vehicles from proceeding on the lengths of the A55 described in Schedule 2. The alternative routes are also described therein. Eastbound and westbound slip roads will not be closed simultaneously.

iv. prohibit all vehicles from proceeding on the lengths of the A55 lay-bys specified in Schedule 3.

It is expected that the prohibitions, which will be signed accordingly, will come into force at 10:00 hours on 4 June 2018 and operate intermittently until 22:00 hours on 24 November 2018 or until the temporary traffic signs are permanently removed. Works will be suspended during the summer embargo period (19 July – 3 September 2018).

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above it will remain valid for a maximum period of 12 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.gov.wales (Select: Legislation/ Subordinate Legislation/ Local Statutory Instruments/ Temporary Traffic Orders/ 2018).

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

YR ATODLENNI

ATODLEN 1

Gwrthlif & Gwahardd Cerbydau Llydan Dros Dro (dros 3 metr)

Y darn o'r A55 sy'n ymestyn o bwynt 3.07 cilometr i'r gorllewin o ganolbwynt Cyffordd 6 (Tyrpeg Nant) hyd at bwynt 876 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt y gyffordd honno.

ATODLEN 2

Gwahardd Cerbydau Dros Dro a Llwybrau Eraill

Y darnau cyfan o ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r dwyrain a thua'r gorllewin yr A55 wrth Gyffordd 6 (Tyrpeg Nant).

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n dymuno gadael yr A55 wrth y gyffordd hon fydd parhau hyd at y gyffordd nesaf (Cyffordd 5 (Treban) neu Gyffordd 7 (Cefn Du)), ymadael yno a dychwelyd ar hyd y gerbyttffordd gyferbyn i ymadael wrth Gyffordd 6.

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n dymuno ymuno â'r A55 wrth Gyffordd 6 fydd ymuno â'r gerbyttffordd gyferbyn wrth y gyffordd hon, mynd hyd at y gyffordd nesaf (Cyffordd 7 (Cefn Du) neu Gyffordd 5 (Treban)), ymadael yno a dychwelyd ar hyd y gerbyttffordd tua'r gorllewin/dwyrain.

ATODLEN 3

Cau Cilfannau Dros Dro

Y darnau cyfan o'r cilfannau rhwng Cyffordd 4 (Dalar Hir) a Chyffordd 8 (Ael-y-Bowl).

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

M D BURNELL
Transport
Welsh Government

SCHEDULES

SCHEDULE 1

Contraflow & Temporary Prohibition of Wide Vehicles (over 3 metres)

The length of the A55 that extends from a point 3.07 kilometres west of the centre-point of Junction 6 (Nant Turnpike) to a point 876 metres east of the centre-point of that junction.

SCHEDULE 2

Temporary Prohibition of Vehicles & Alternative Routes

The entire lengths of the A55 eastbound and westbound exit and entry slip roads at Junction 6 (Nant Turnpike).

The alternative route for traffic wishing to leave the A55 at this junction will be to continue to the next junction (Junction 5 (Treban) or Junction 7 (Cefn Du)), exit and return on the opposite carriageway to leave at Junction 6.

The alternative route for traffic wishing to join the A55 at Junction 6 will be to join the opposite carriageway at this junction, proceed to the next junction (Junction 7 (Cefn Du) or Junction 5 (Treban)), exit and return on the westbound/eastbound carriageway.

SCHEDULE 3

Temporary Lay-by Closures

The entire lengths of the lay-bys between Junction 4 (Dalar Hir) and Junction 8 (Ael-y-Bowl).